Ministry of Justice

**Cyflwynwyd y Cynllun Gweithredu:** 30ain Mehefin 2022

**Cynllun Gweithredu wedi'i Ddiweddaru: 25ain Ionawr 2023**

**Ymateb i Gyd-arolygiad y System Cyfiawnder Troseddol:** Niwroamrywiaeth yn y System Cyfiawnder Troseddol – Adolygiad o Dystiolaeth

**Cyhoeddwyd yr Adroddiad:** 15fed Gorffennaf 2021

## RHAGARWEINIAD

Mae niwrowahaniaeth yn derm cyffredinol a ddefnyddir i ddisgrifio rhestr gynhwysol o anawsterau, gwahaniaethau, cyflyrau ac anhwylderau gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, anableddau dysgu, anawsterau dysgu, Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD), Awtistiaeth ac Anafiadau i'r Ymennydd.

Er bod niwrowahaniaeth yn wahanol iawn i anghenion iechyd meddwl, mae'n bwysig cydnabod ei bod yn debygol iawn bod perthynas yn bodoli rhwng niwroamrywiaeth ac anghenion iechyd meddwl. Fodd bynnag, gall pobl sydd â nodweddion/cyflyrau niwrowahanol fod angen cymorth gwahanol iawn o'i gymharu ag ymyriadau mwy clinigol sy'n aml yn gysylltiedig ag anghenion iechyd meddwl, sy'n cynnwys ymyriadau cymdeithasol-gyfathrebol, synhwyraidd ac addysgol.

Comisiynodd y cyn Arglwydd Ganghellor bryd hynny, y gwir Anrhydeddus Robert Buckland CB AS Arolygiaeth Carchardai a Phrawf EM, gyda chefnogaeth gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM a'r Gwasanaethau Tân ac Achub, i gynnal Galwad annibynnol am Dystiolaeth ar niwroamrywiaeth oedolion yn y system cyfiawnder troseddol, a gyhoeddwyd ar 15 Gorffennaf 2021.

Mae Arolygiaeth Carchardai EF, Arolygiaeth Prawf EF ar gyfer Cymru a Lloegr ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth EF a'r Gwasanaethau Tân ac Achub ar gyfer Cymru a Lloegr yn arolygiaethau annibynnol sy'n craffu ar yr amodau ar gyfer trin carcharorion a throseddwyr. Maent yn craffu ac yn adrodd ar amodau mewn carchardai a sefydliadau troseddwyr ifanc, yn ogystal â thriniaeth troseddwyr ac effeithiolrwydd gwasanaethau prawf a gwasanaethau troseddau ieuenctid ledled Cymru a Lloegr i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi. Mewn ymateb i'r adroddiad, rhaid i Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder lunio cynllun gweithredu cadarn ac amserol i fynd i'r afael â'r argymhellion.

Cyhoeddwyd cynllun gweithredu trawslywodraethol ar 30 Mehefin 2022, a oedd yn nodi pa rai o'r argymhellion yn y Cais am Dystiolaeth y cytunwyd arnynt yn rhannol, neu na chytunwyd arnynt. Os cytunir ar argymhelliad neu os cytunir arno'n rhannol, mae'r cynllun gweithredu yn darparu camau penodol a chamau gweithredu penodol i fynd i'r afael â'r rhain. Mae'r camau gweithredu'n glir, yn fesuradwy, yn gyraeddadwy ac yn berthnasol gyda'r perchennog, ac mae amserlenni pob cam wedi'u nodi'n glir. Anfonir cynlluniau gweithredu at yr Arolygiaethau Cyfiawnder a'u cyhoeddi ar wefan GOV.UK.

Bydd y cynnydd mewn perthynas â'r gwaith gweithredu a chyflawni'r cynlluniau gweithredu yn cael ei fonitro gan HMPPS a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ac yn cael ei adrodd. Mae'r diweddariad hwn yn rhoi trosolwg o'r cynnydd a wnaed yn erbyn pob argymhelliad dros y chwe mis diwethaf. Mae gwaith yn mynd rhagddo mewn sawl maes a bydd diweddariad pellach yn cael ei ddarparu yn ystod haf 2023.

| **Term** | **Diffiniad** | **Sylwadau ychwanegol** |
|---|---|---|
| Cytunwyd | Cytunwyd ar yr holl argymhelliad, mae modd ei gyflawni ac mae'n fforddiadwy. | Dylai'r ymateb esbonio'n glir sut caiff yr argymhelliad ei gyflawni, ynghyd â'r amserlenni. Dylai camau gweithredu fod yn rhai CAMPUS (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol a Synhwyrol), gymaint ag y bo modd.<br>Dylai'r camau gweithredu fod yn ddigon penodol i gael eu holrhain ar gyfer cynnydd. |
| Cytunwyd yn Rhannol | Dim ond ar ran o'r argymhelliad y cytunwyd, mae'n gyraeddadwy, yn fforddiadwy ac fe fydd yn cael ei weithredu.<br>Gallai hyn fod oherwydd na allwn weithredu'r argymhelliad cyfan oherwydd rhesymau comisiynu, polisi, gweithredol neu fforddiadwyedd. | Rhaid i'r ymateb nodi'n glir pa ran o'r argymhelliad fydd yn cael ei weithredu, ynghyd â chamau CAMPUS, a rhaid iddo gael ei olrhain ar gyfer cynnydd. **Rhaid** cael esboniad ynghylch pam na allwn gytuno'n llawn ar yr argymhelliad – rhaid i hyn nodi'n glir ai rhesymau comisiynu, polisi, gweithredol neu fforddiadwyedd sy'n gyfrifol am hyn. |
| Heb Gytuno | Ni chytunwyd ar yr argymhelliad ac ni chaiff ei weithredu. Gallai hyn fod oherwydd rhesymau comisiynu, polisi, gweithredol neu fforddiadwyedd. | Rhaid i'r ymateb nodi'n glir y rhesymau pam ein bod wedi dewis yr opsiwn hwn.<br>**Rhaid** cael esboniad ynghylch pam na allwn gytuno ar yr argymhelliad – rhaid i hyn nodi'n glir ai rhesymau comisiynu, polisi, gweithredol neu fforddiadwyedd sy'n gyfrifol am hyn. |

**CYNLLUN GWEITHREDU: Niwroamrywiaeth yn y System Cyfiawnder Troseddol: Adolygiad o'r Dystiolaeth**

| 1. Rhif | 2. Argymhelliad | 3. Cytunwyd/ Cytunwyd Yn rhannol / Heb Gytuno | 4. Ymateb Camau a Gymerwyd/a Gynlluniwyd | 5. Perchennog Cyfrifol | 6. Dyddiad targed |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Er mwyn gwella'r canlyniadau i bobl niwrowahanol yn y system cyfiawnder troseddol, mae angen dull gweithredu cydgysylltiedig a thrawslywodraethol. Er mwyn rhoi'r arweiniad a'r cyfarwyddyd sydd eu hangen, dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder weithio gyda'r Swyddfa Gartref, yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Adran Addysg, a | Cytunwyd yn Rhannol | Rydym yn cytuno'n llwyr â rhan gyntaf yr argymhelliad hwn. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi sefydlu Gweithgor Trawslywodraethol (DHSC, HO, Llywodraeth Cymru, DfE) o Uwch Swyddogion a Grŵp Gweithredol (MoJ, HMPPS, HMCTS, CPS, HO, NHS, NPCC) o'r asiantaethau perthnasol i gydnabod yr angen am ymdrech ar draws systemau i wella'r ddarpariaeth ar gyfer pobl niwrowahanol ar bob cam o'r System Cyfiawnder Troseddol.<br><br>Er mwyn sicrhau ein bod yn gallu datblygu a gweithredu gwelliannau ar draws y system, bydd y Gweithgor Trawslywodraethol a'r Grŵp Gweithredol yn ystyried pob cam allweddol o'r System Cyfiawnder Troseddol, gan gynnwys cyswllt cyntaf unigolyn â'r Heddlu, gwasanaethau Cyswllt a Dargyfeirio, llysoedd a dedfrydu, goruchwyliaeth prawf, carchar ac, yn olaf, ailsefydlu yn ôl i'r gymuned. | Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Iechyd a Menywod sy'n Droseddwyr, y Weinyddiaeth Gyfiawnder<br><br>Dirprwy Gyfarwyddwyr Cyfatebol sy'n gyfrifol am Bolisi Niwroamrywiaeth yn yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y Swyddfa Gartref, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'u hasiantaethau. | Cwblhawyd yn Ionawr 2022<br><br>Tachwedd 2022<br><br>Tachwedd 2022 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Llywodraeth Cymru i ddatblygu strategaeth genedlaethol drosfwaol. Dylid datblygu'r strategaeth hon ar y cyd â phobl sydd â phrofiad personol o niwrowahaniaeth | | Rydym eisoes wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran cefnogi person niwrowahanol drwy gydol eu taith drwy'r System Cyfiawnder Troseddol. Erbyn hyn, mae gennym ganllawiau i ynadon a barnwyr i ystyried niwrowahaniaeth wrth ddedfrydu. Ar gyfer dedfrydau cymunedol, rydym yn treialu arbenigwyr niwroamrywiaeth fel rhan o'n Gofynion Triniaeth Dedfryd Gymunedol. Mewn carchardai, rydym wedi treialu rolau Rheolwr Cefnogi Niwroamrywiaeth mewn pedwar carchar ac rydym nawr yn bwriadu ymestyn hyn ymhellach. Mae'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf wedi datblygu Fframwaith Cymwyseddau Craidd Iechyd, Gofal a Lles i Oedolion ar gyfer Staff Carchardai a Phrawf, sy'n cynnwys ystyried anghenion pobl niwrowahanol. O ran ailsefydlu yn ôl i'r gymuned ar ôl cyfnod yn y carchar, rydym yn datblygu pasbort adsefydlu a fydd yn mabwysiadu dull personol o adsefydlu, gan gynnwys ystyried carcharorion ag anawsterau dysgu/anableddau/ gwahaniaethau, awtistiaeth neu ADHD.<br><br>Fodd bynnag, **cytunwyd yn rhannol** â'r argymhelliad hwn oherwydd bod angen i adrannau ac asiantaethau perthnasol y llywodraeth weithio gyda'i gilydd i fapio'r ffrydiau gwaith presennol ac yna asesu i weld ai strategaeth niwroamrywiaeth yw'r ffordd orau ymlaen. Bydd y Gweithgor Trawslywodraethol yn mapio'r polisïau, y strategaethau a'r ffrydiau gwaith presennol sy'n ymwneud â niwroamrywiaeth sy'n berthnasol i'r System Cyfiawnder Troseddol. Bydd y gwaith hwn hefyd yn cael ei gefnogi gan y Grŵp Gweithredol a fydd yn dwyn ynghyd yr asiantaethau lefel weithredol o'r holl adrannau perthnasol i sicrhau bod y System Cyfiawnder Troseddol yn ystyried niwrowahaniaeth yn ystod bob cam. | Dirprwy Gyfarwyddwyr Cyfatebol sy'n gyfrifol am Bolisi Niwroamrywiaeth yn yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y Swyddfa Gartref, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'u hasiantaethau. | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Bydd cyfnod archwilio'n cael ei gynnal dros chwe mis ar ôl ei gyhoeddi a bydd y cyfnod hwn yn cael ei ddefnyddio i sefydlu a oes angen strategaeth niwroamrywiaeth benodol ar gyfer y System Cyfiawnder Troseddol neu a oes modd ehangu'r polisïau a/neu'r strategaethau presennol sydd ar waith ar gyfer pobl niwrowahanol i gynnwys unrhyw fylchau sy'n ymwneud â'r System Cyfiawnder Troseddol.<br><br>Mae'r camau gweithredu penodol ar gyfer y cyfnod archwilio yn cynnwys:<br>- Bydd **Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi** a'r **Weinyddiaeth Gyfiawnder** yn datblygu ymyriadau i gefnogi anghenion pobl niwrowahanol sy'n dod drwy'r llys yn well, a byddant yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd yn yr adolygiad chwe mis o'r cynllun gweithredu.<br><br>- Bydd **Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi** a'r **Weinyddiaeth Gyfiawnder** yn mapio ac yn gwerthuso prosesau sgrinio cyfredol, gweithdrefnau rhannu data a threialu Rheolwyr Cymorth Niwroamrywiaeth gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd yn yr adolygiad chwe mis o'r cynllun gweithredu.<br><br>- Bydd **Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu** yn edrych ar enghreifftiau o'r addasiadau sy'n cael eu gwneud ar hyn o bryd ar gyfer pobl niwrowahanol sy'n dod i gysylltiad â'r heddlu ac yn rhoi diweddariad erbyn yr adolygiad chwe mis o'r cynllun gweithredu. | Pennaeth Hygyrchedd Defnyddwyr a Chymorth Gweithredol<br><br>Dirprwy Gyfarwyddwr, Grŵp Datblygu Strategol y Gyfarwyddiaeth Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad a Dirprwy Gyfarwyddwr Lleihau Aildroseddu, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi<br><br>Prif Swyddog Cynorthwyol gyda Heddlu Dyfnaint a Chernyw a'r arweinydd niwroamrywiaeth ar gyfer Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu | Tachwedd 2022<br><br>Tachwedd 2022<br><br>Tachwedd 2022<br><br>Tachwedd 2022 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | - Bydd yr **Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol** yn archwilio'r bylchau sy'n gysylltiedig ag iechyd a gofal y tu hwnt i'r Strategaeth Awtistiaeth bresennol mewn perthynas â niwroamrywiaeth yn y System Cyfiawnder Troseddol. Bydd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cwmpasu gwaith cysylltiedig ar draws yr Adran a GIG Lloegr ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf erbyn yr adolygiad chwe mis o'r cynllun gweithredu.<br><br>- Bydd adrannau'n gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod archwilio i ganfod synergeddau rhwng adrannau'r llywodraeth ac enghreifftiau o arferion gorau.<br><br>Mae swyddogion y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi gweithio mewn partneriaeth â Revolving Doors i lansio fforwm profiad uniongyrchol ym mis Hydref 2021 i sicrhau bod profiad personol unigolion yn rhan annatod o'r broses o wneud polisïau a phenderfyniadau gweithredol. Rydym wedi ymrwymo i ddefnyddio profiad personol aelodau'r fforwm fel sail i'r gwaith parhaus o ddatblygu a gweithredu'r cynllun gweithredu cyn y pwyntiau adolygu chwe mis a deuddeg mis. | Dirprwy Gyfarwyddwr Niwroamrywiaeth, anabledd ac Anabledd Dysgu, yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol<br><br>Dirprwy Gyfarwyddwyr Cyfatebol sy'n gyfrifol am Bolisi Niwroamrywiaeth yn yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y Swyddfa Gartref, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'u hasiantaethau.<br><br>Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Iechyd Troseddwyr a Menywod sy'n Droseddwyr, y Weinyddiaeth Gyfiawnder | Cwblhawyd ym mis Tachwedd 2021 |
| | | | **Diweddariad Chwe Mis**<br><br>Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod pobl niwrowahanol yn y System Cyfiawnder Troseddol yn cael eu cefnogi ar bob cam o'r broses. Mae Cynllun Gweithredu Adeiladu'r Cymorth Cywir (Gorffennaf 2022), Adnewyddu'r Strategaeth Awtistiaeth (Gorffennaf 2021) a'r Papur Gwyn ar y Strategaeth Carchardai (Rhagfyr 2021) i gyd yn cynnwys ymrwymiadau sy'n ceisio sicrhau bod pobl niwrowahanol yn gallu cael gafael ar y cymorth cywir. | Dirprwy Gyfarwyddwyr Cyfatebol sy'n gyfrifol am Bolisi Niwroamrywiaeth yn yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y Swyddfa Gartref, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'u hasiantaethau. | Cwblhawyd ym mis Hydref 2022 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar gryfhau a chyflawni'r ymrwymiadau hyn, yn ogystal â chyflawni drwy'r cynllun gweithredu hwn.<br><br>Mae'r Gweithgor Trawslywodraethol, dan arweiniad y Weinyddiaeth Gyfiawnder, wedi cwrdd bedair gwaith i gyfarwyddo a goruchwylio'r cam archwilio chwe mis. Mae sefydlu'r gweithgor hwn wedi cryfhau'r berthynas waith rhwng asiantaethau iechyd, cyfiawnder a phlismona allweddol ac wedi gwella'r cydgysylltu. Bydd y Gweithgor Trawslywodraethol yn parhau i chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o weithredu'r ymrwymiadau a nodir yn y ddogfen hon a bydd yn monitro'r ddarpariaeth yn strategol drwy rwydwaith o Uwch Swyddogion Cyfrifol.<br><br>I gefnogi'r ddarpariaeth, sefydlwyd Gweithgor Gweithredol i archwilio'n drylwyr y gefnogaeth sydd ar gael i bobl niwrowahanol ar bob cam o'r System Cyfiawnder Troseddol, o gyswllt cyntaf unigolyn â'r Heddlu, yr holl ffordd drwodd i adsefydlu yn ôl i'r gymuned ar ôl gadael y carchar. Roedd y broses hon yn tynnu sylw at y ffaith bod amrywiaeth eang o waith eisoes ar y gweill i wella ansawdd, cysondeb ac argaeledd y gefnogaeth ar gyfer y garfan hon. Mae ymyriadau wedi'u targedu wedi cael eu datblygu i lenwi unrhyw fylchau a nodwyd. Mae'r cynnydd yn cynnwys:<br><br>• Er mwyn gwella'r gefnogaeth sydd ar gael yn ystod pwynt cyswllt cyntaf rhywun gyda'r SCT, mae Gweithgor yr Heddlu, dan gadeiryddiaeth Prif Swyddog Cynorthwyol Poole, yn cynhyrchu cyfeiriadur arfer gorau i dynnu sylw at enghreifftiau o hyfforddiant, addasiadau rhesymol a datblygiadau arloesol. Bydd hyn yn cael ei gwblhau a'i anfon at bob heddlu ddechrau 2023.<br>• Ar draws llysoedd a dedfrydu, mae GLlTEM wedi datblygu a chymeradwyo Strategaeth | Dirprwy Gyfarwyddwyr Cyfatebol sy'n gyfrifol am Bolisi Niwroamrywiaeth yn yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y Swyddfa Gartref, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'u hasiantaethau.<br><br>Cydweithwyr Gweithredol a Pholisi o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM, GLlTEM<br><br>Prif Swyddog Cynorthwyol gyda Heddlu Dyfnaint a Chernyw a'r arweinydd niwroamrywiaeth ar gyfer Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu<br><br>Pennaeth Cynhwysiant ac Ymgysylltu â Defnyddwyr, HMCT | Cwblhawyd ym mis Hydref 2022<br><br>Cwblhawyd ym mis Hydref 2022<br><br>Dechrau 2023<br><br>Wedi'i gwblhau |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Gyfeirio, sy'n nodi sut y bydd GLITEM yn cysylltu defnyddwyr ag anghenion ychwanegol â darparwyr cymorth allanol.<br>• Mae'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol wedi ymrwymo i weithio gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i wella'r cysylltiad â'r heddlu, cyfreithwyr, y Gwasanaeth Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf a'r llysoedd a chydweithwyr dedfrydu, er mwyn sicrhau cyngor cyfreithiol priodol ac amserol a bod camau'n cael eu cymryd i gefnogi pobl niwrowahanol i ddeall achosion cyfreithiol. Bydd yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn archwilio lle gallai fod bylchau yn y prosesau presennol ac yn dod o hyd i atebion mewn pryd ar gyfer y diweddariad nesaf i'r cynllun gweithredu hwn.<br>• Yn y gwasanaeth carchardai a phrawf, mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud eisoes o ran cyflwyno rôl y Rheolwr Cymorth Niwroamrywiaeth mewn carchardai. Ym mis Rhagfyr 2022, mae 48 o Reolwyr Cymorth Niwroamrywiaeth wedi cael eu recriwtio, ac rydym ar y trywydd iawn i gyflwyno hyn ar draws pob carchar yng Nghymru a Lloegr erbyn 2024. Mae'r rolau hyn eisoes yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o wella prosesau i ganfod a chefnogi carcharorion sydd ag anghenion niwrowahanol, gan gynnwys sicrhau bod carcharorion niwrowahanol yn gallu cael gafael ar y cyfleoedd addysg, sgiliau a gwaith yn y carchar. Mae'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf wedi penodi tîm niwroamrywiaeth canolog i helpu i wreiddio'r swyddi hyn yn y carchardai drwy ddatblygu adnoddau, hyrwyddo rhwydweithio a rhannu arferion da, yn ogystal â darparu cyngor a chymorth arbenigol. Mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth | Pennaeth Pobl a Gallu, Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol<br><br>Dirprwy Gyfarwyddwr Lleihau Aildroseddu, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi a Chyfarwyddwr Polisi Carchardai, Dirprwy Gyfarwyddwr Grŵp Datblygu Strategol yn y Gyfarwyddiaeth Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Carchardai a Phrawf, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn hyrwyddo achrediad awtistiaeth ar draws yr ystâd carchardai i wneud amgylchedd y carchar yn fwy cefnogol i bobl niwrowahanol. Ers mis Hydref 2022, mae pedwar carchar wedi cael statws achrededig ac mae 14 carchar yn gweithio tuag ato.<br>• Er mwyn sicrhau ein bod yn diwallu anghenion pobl niwrowahanol sy'n gadael y carchar yn llawn, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn treialu adnoddau digidol i wella'r cymorth i bobl niwrowahanol. Un cynllun peilot sydd eisoes yn fyw yw Turning Pages – adnodd dysgu digidol sydd wedi'i anelu at y rhai sy'n gadael y carchar sydd ag anawsterau dysgu ac anableddau sy'n eu hannog i wella eu sgiliau llythrennedd ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. Lansiwyd y cynllun peilot hwn yn rhanbarth prawf Caint, Surrey a Sussex ym mis Hydref 2022 a bydd yn cael ei gynnal am 12 mis.<br>• Er mwyn gwella mynediad at ofal iechyd, mae tîm Iechyd a Chyfiawnder GIG Lloegr yn cymryd nifer o gamau i wella'r profiad o gael gofal iechyd i bobl niwrowahanol yn y system cyfiawnder troseddol. Mae'r rhain yn cynnwys gweithredu'r safonau gwella anabledd dysgu a meincnodi awtistiaeth ac anabledd dysgu mewn rhanbarthau Iechyd a Chyfiawnder; a datblygu rhwydwaith o hyrwyddwyr gofal iechyd mewn carchardai ar gyfer anableddau dysgu ac awtistiaeth a datblygu llwybrau niwroamrywiaeth a chanllawiau/deunyddiau ar gyfer y gwasanaethau y mae'n eu comisiynu. Ar ben hynny, mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn arwain Strategaeth ar gyfer | Dirprwy Gyfarwyddwr, Canlyniadau Carcharorion, Adsefydlu ac Aildroseddu, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF<br><br>Dirprwy Gyfarwyddwr, Niwroamrywiaeth, anabledd ac Anableddau Dysgu, DHSC, Dirprwy Gyfarwyddwr, Gofal Iechyd Cymunedol, DHSC | Hydref 2023 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Anafiadau i'r Ymennydd (ABI) ar draws y llywodraeth i gefnogi canlyniadau gwell i unigolion sydd ag Anafiadau i'r Ymennydd, eu teuluoedd a'u gofalwyr, gan gynnwys y rheini yn y System Cyfiawnder Troseddol. Bydd diweddariad ar gyhoeddi'r strategaeth hon yn cael ei ddarparu ymhen chwe mis.<br>• Mae cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru yn mynychu'r Gweithgor Trawslywodraethol i helpu i lywio ein dull gweithredu cyffredinol a rhannu arferion gorau. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal adolygiad o'r galw a chapasiti gwasanaethau niwroamrywiaeth ac, mewn ymateb i ganfyddiadau'r adolygiad, mae rhaglen gwella niwrowahanol wedi cael ei sefydlu. Bydd hyn yn ystyried anghenion pobl niwrowahanol yng Nghymru sy'n ymwneud â'r System Cyfiawnder Troseddol, yn y cyd-destun datganoledig. Bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cael ei chynrychioli wrth iddynt ddatblygu gwasanaethau ac mae hyn yn cynnwys aelodaeth o'n Grŵp Cynghori Gweinidogol ar Niwrowahaniaeth a fydd yn goruchwylio'r gwaith o gyflawni rhaglenni. | Dirprwy Gyfarwyddwyr Cyfatebol sy'n gyfrifol am Bolisi Niwroamrywiaeth yn yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y Swyddfa Gartref, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'u hasiantaethau. | |
| 2 | Dylid cyflwyno adnodd sgrinio cyffredin ar gyfer defnydd cyffredinol o fewn y system cyfiawnder troseddol, wedi'i ategu gan brotocol rhannu gwybodaeth sy'n nodi sut y dylid rhannu gwybodaeth yn briodol o fewn asiantaethau a | Cytunwyd yn Rhannol | Rydym yn cytuno'n llwyr â'r penderfyniad i adolygu ein defnydd presennol o'r adnodd sgrinio ar draws y System Cyfiawnder Troseddol. Bydd Gweithgor Trawslywodraethol dan arweiniad y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ystyried yr angen a'r dichonoldeb o gyflwyno offeryn sgrinio cyffredin, beth sy'n briodol ar gyfer pob lleoliad SCT unigol, gan gynnwys ymarferoldeb, defnydd, fforddiadwyedd a gwerth am arian. Mae hyn yn cynnwys ystyried arferion sgrinio cyfredol gan asiantaethau partner, diogelwch gwybodaeth, dibenion rhannu gwybodaeth a chydymffurfio â GDPR, dyletswyddau cyfreithiol eraill ar rannu data, cyfrifoldebau polisi datganoledig Llywodraeth Cymru, yn ogystal â sefydlu a yw'r | Dirprwy Gyfarwyddwyr Cyfatebol sy'n gyfrifol am Bolisi Niwroamrywiaeth yn y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf, Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu, Adran Addysg a'u hasiantaethau. | Tachwedd 2022 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | rhyngddynt, er mwyn sicrhau bod addasiadau angenrheidiol a chefnogaeth ychwanegol yn cael eu darparu i unigolion wrth iddynt symud ymlaen drwy'r system cyfiawnder troseddol. | | systemau TG a gwybodaeth presennol a ddefnyddir ar draws y System Cyfiawnder Troseddol yn gydnaws ac yn gallu rhannu'r math hwn o wybodaeth.<br>Ar hyn o bryd mae'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf yn mapio ac yn ystyried nifer o ddulliau sgrinio gwahanol i nodi'r tebygolrwydd o nodweddion niwrowahanol, a fydd yn cael eu diweddaru yn yr adolygiad chwe mis o'r cynllun gweithredu. Hyd yma, mae'r ymarfer mapio hwn wedi nodi gweithgareddau allweddol i'w cyflawni mewn partneriaeth â sefydliadau eraill (gan gynnwys NHS England/ Improvement a'r Trydydd Sector lle bo hynny'n berthnasol) a fydd yn cefnogi'r gwaith o ddefnyddio offer sgrinio priodol ar draws yr ystâd.<br><br>Fodd bynnag, **cytunir yn rhannol** ar yr argymhelliad hwn gan ei bod yn bosibl nad defnyddio offeryn sgrinio cyffredin ar draws y System Cyfiawnder Troseddol (SCT) yw'r un mwyaf priodol ym mhob lleoliad. Bydd rhagor o waith cwmpasu'n cael ei wneud i bennu lefel yr adnoddau sgrinio sy'n addas i'r diben ar draws nifer o leoliadau (e.e. dalfeydd yr heddlu yn erbyn prosesau cynefino'r carchardai). | Dirprwy Gyfarwyddwr, Grŵp Datblygu Strategol y Gyfarwyddiaeth Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad | Tachwedd 2022 |
| | | | **Diweddariad Chwe Mis**<br><br>Buom yn archwilio'n drylwyr y defnydd o arfau sgrinio ar draws y System Cyfiawnder Troseddol gan ddod i'r casgliad bod angen dull cyson o ganfod angen ar draws asiantaethau er mwyn sicrhau bod modd rhannu data'n effeithiol. Yn hytrach na chanolbwyntio ar feini prawf diagnostig, dylai asiantaethau cyfiawnder troseddol geisio nodi pa addasiadau rhesymol y gellir eu gwneud i gefnogi pobl niwrowahanol ar bob cam o'r broses, a dylid storio a rhannu'r wybodaeth hon yn gywir. Fodd bynnag, er bod angen cysondeb, byddai'n amhriodol defnyddio un arf yn gyffredinol ar draws pob asiantaeth | Dirprwy Gyfarwyddwyr Cyfatebol sy'n gyfrifol am Bolisi Niwroamrywiaeth yn y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf, Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu, Adran Addysg a'u hasiantaethau. | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | oherwydd bydd yr amser sydd ar gael i ganfod anghenion unigolyn a'r mathau o addasiadau rhesymol sydd ar gael yn amrywio ar bob cam o'r system. | | |
| | | | Er mwyn rhoi hyn ar waith, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a thîm Lleihau Aildroseddu'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Addysg Carchardai i adolygu a gwella'r adnoddau presennol a ddefnyddir yn y carchar ac yn y gwasanaeth prawf. Bydd yr adolygiad hefyd yn edrych ar brosesau sgrinio niwroamrywiaeth i helpu i lywio gofynion yn y dyfodol a fydd yn cael eu comisiynu fel rhan o'r PES a fydd yn cael ei roi ar waith yng Ngwanwyn 2025. Fel rhan o'r gwaith hwn byddwn yn rhannu'r hyn a ddysgwyd ac arferion gorau ar draws holl asiantaethau'r System Cyfiawnder Troseddol er mwyn llywio arferion comisiynu a rhannu data yn y dyfodol. Bydd hyn yn sicrhau bod offer sgrinio niwroamrywiaeth o ansawdd uchel, yn hygyrch ac yn nodi anghenion posibl carcharorion yn gywir ac yn cefnogi'r gwaith o ddylunio a gweithredu cynlluniau cymorth ar gyfer carcharorion. Mae gwaith yn mynd rhagddo hefyd i ddatblygu ymhellach y systemau digidol presennol i wella hygyrchedd ac effeithlonrwydd rhannu data niwroamrywiaeth yn y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf. Bydd hyn yn lleihau nifer y profion sgrinio dyblyg ac yn gwella ansawdd y cymorth i garcharorion. | Dirprwy Gyfarwyddwr, Grŵp Datblygu Strategol y Gyfarwyddiaeth Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad | Gwanwyn 2025 |
| | | | Fel rhan o'u rôl, bydd y Rheolwyr Cymorth Niwroamrywiaeth newydd mewn carchardai yn helpu i gefnogi cydweithio effeithiol a rhannu gwybodaeth am anghenion niwrowahanol a'r gefnogaeth sydd ei hangen, ar draws y gwasanaethau carchardai a phrawf. | Dirprwy Gyfarwyddwr, Lleihau Aildroseddu, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF | Mawrth 2024 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Mae gwaith yn mynd rhagddo hefyd drwy Weithgor yr Heddlu i nodi a gweithredu dull gweithredu ar gyfer asesiadau risg yn y ddalfa sy'n nodi niwrowahaniaeth bosibl a'r angen am addasiadau rhesymol. Mae hyn yn cael ei wneud drwy adolygu asesiadau risg heddluoedd a bydd yn cynnwys mewnbwn gan bobl sydd â phrofiad uniongyrchol. | Prif Swyddog Cynorthwyol gyda Heddlu Dyfnaint a Chernyw a'r arweinydd niwroamrywiaeth ar gyfer Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu | |
| 3 | Dylid casglu a chyfuno data sgrinio'n systematig er mwyn darparu asesiad mwy cywir o ba mor gyffredin yw niwrowahaniaeth i lywio'r gwaith o ddadansoddi anghenion a chynllunio gwasanaethau ar bob lefel yn y system cyfiawnder troseddol. | Cytunwyd yn Rhannol | Rydym yn cytuno ag egwyddor yr argymhelliad hwn. Fodd bynnag, **cytunwyd yn rhannol** ei fod yn dibynnu ar ganlyniad cam dau.<br><br>Bydd y Gweithgor Trawslywodraethol a'r is-grwpiau perthnasol yn penderfynu i ba raddau y mae'r wybodaeth hon yn cael ei chofnodi ar systemau TG perthnasol, beth yw pwrpas coladu data a beth all ei olygu o ran buddion. Rhaid i ni hefyd nodi sut mae cael gafael ar y data presennol er mwyn darparu asesiad mwy cywir o ba mor gyffredin yw niwrowahaniaeth. Fel rhan o'r Grŵp Gweithredol, bydd yr holl asiantaethau'n gweithio gyda thimau digidol i ddeall a oes modd rhannu data ar draws y systemau TG rhyngadrannol.<br><br>Mae cryn gynnydd wedi'i wneud eisoes o ran gwella'r broses o rannu gwybodaeth am niwrowahaniaeth. Fel rhan o'r prosiect cyflymu carchardai, mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi yn cofnodi niwrowahaniaeth ym mhrif gofnod y carcharor ar ei system reoli mewn pedwar safle peilot. Cyflwynir y wybodaeth niwroamrywiaeth hon, ynghyd â data addysg, sgiliau a gwaith arall, mewn un system am y tro cyntaf – gan roi mynediad clir a rhwydd at ddarlun | Dirprwy Gyfarwyddwyr Cyfatebol sy'n gyfrifol am Bolisi Niwroamrywiaeth yn y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf, Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu, y Coleg Plismona, a Llywodraeth Cymru<br><br>Dirprwy Gyfarwyddwr, Lleihau Aildroseddu, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF | Tachwedd 2022<br><br>Tachwedd 2022 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | cyflawn o'r carcharor, fel y gellir sefydlu mecanweithiau cefnogi priodol.<br><br>Yn y Papur Gwyn ar y Strategaeth Carchardai, gwnaethom ailadrodd ymrwymiad y llywodraeth i helpu unigolion i droi eu cefnau ar droseddu drwy ddatblygu pasbort adsefydlu. Bydd y pasbort yn dod â'r wybodaeth a'r gwasanaethau allweddol at ei gilydd i helpu'r rhai sy'n gadael y carchar i fynd i'r afael â'r hyn sy'n eu cymell i droseddu dro ar ôl tro a sicrhau bod y broses o drosglwyddo i'r gymuned yn ddidrafferth. Byddwn yn defnyddio dull personol i lywio datblygiad y pasbort i sicrhau ei fod yn addasu i'r heriau a wynebir gan grwpiau penodol, fel y carcharorion hynny sydd ag anawsterau dysgu/anableddau/gwahaniaethau, awtistiaeth neu ADHD. Bydd hyn yn symud oddi wrth ddull gweithredu sy'n addas i bawb a thuag at ddull mwy personol ac integredig sy'n seiliedig ar anghenion unigol y troseddwr.<br><br>Bydd y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf yn parhau i gyfrannu at drafodaethau'r Grŵp Gweithredol a'r Gweithgor Trawslywodraethol a bydd yn rhoi diweddariad yn y cynllun gweithredu diwygiedig ar ôl chwe mis.<br><br>Fel y soniwyd uchod, er mwyn gwella'r broses o rannu data ar hyd oes taith person niwrowahanol drwy'r System Cyfiawnder Troseddol, bydd y grŵp gweithredol yn edrych ar bob cam o'r System Cyfiawnder Troseddol, gan ddechrau gyda'r Heddlu, hyd at adsefydlu yn ôl i'r gymuned. Bydd y wybodaeth hon wedyn yn cael ei defnyddio i ddiweddaru'r cynllun gweithredu yn ystod y cyfnod chwe mis. | Dirprwy Gyfarwyddwr, Lleihau Aildroseddu, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM<br><br>Dirprwy Gyfarwyddwr, Lleihau Aildroseddu, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF<br><br>Dirprwy Gyfarwyddwyr Cyfatebol sy'n gyfrifol am Bolisi Niwroamrywiaeth yn y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf, Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu, Llys Gwarchod, a Llywodraeth Cymru | Tachwedd 2022<br><br>Tachwedd 2022<br><br>Tachwedd 2022 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Diweddariad Chwe Mis**<br><br>Mae'r Grŵp Gweithredol wedi edrych ar ffyrdd o wella'r broses o gydgysylltu a rhannu data. Ar hyn o bryd, nid yw data sgrinio'n cael ei gofnodi'n systematig yn y ddalfa gan yr heddlu ac nid yw'r sgrinio'n cael ei gynnal yn unffurf fel rhan o'r broses cyn-dedfrydu. Byddwn yn parhau i weithio ar draws asiantaethau cyfiawnder troseddol i wella'r prosesau hyn. Mae'n rhaid sgrinio pan fydd rhywun ar brawf neu'n dod i'r carchar, er bod ansawdd y data'n dal yn anghyson. Un maes allweddol yr ydym wedi edrych arno yw sut y gellir defnyddio hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth i sicrhau bod staff yn gwybod pryd y mae'n hanfodol rhannu gwybodaeth am niwroamrywiaeth rhwng asiantaethau.<br><br>Ar hyn o bryd mae'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf yn gweithio i edrych ar ymyriadau wedi'u targedu i sicrhau bod data'n cael eu casglu a'u rhannu'n briodol i lywio'r cymorth sy'n cael ei ddarparu i unigolyn ac i gynllunio gwasanaethau.<br><br>Mae cydweithwyr yn PES y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf ar hyn o bryd yn edrych ar lwybrau adrodd data presennol ac yn adolygu argaeledd data ar ba mor gyffredin yw niwrowahaniaeth yn y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf a'r cynlluniau sydd ar waith i gefnogi anghenion dysgu ychwanegol. Drwy wella methodoleg casglu data, adrodd dadansoddol a rhannu gwybodaeth, mae'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf yn datblygu dull safonol o ddelio â data a fydd yn gwella'r gwaith o ddarparu gwasanaethau gweithredol ac yn helpu rhanddeiliaid i ddeall a rhagweld anghenion poblogaeth y carchardai yn well.<br><br>Mae'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf wedi parhau i wneud cynnydd o ran datblygu Pasbortau Adsefydlu. | Cydweithwyr Gweithredol ar draws yr holl Asiantaethau Cyfiawnder Troseddol<br><br>Dirprwy Gyfarwyddwr, Grŵp Datblygu Strategol y Gyfarwyddiaeth Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad<br><br>Dirprwy Gyfarwyddwr, Lleihau Aildroseddu, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Mae fersiwn cyntaf yn cael ei brofi mewn 5 carchar. Yn y pen draw, caiff hwn ei ddisodli gan fersiwn digidol. Mae hyn yn dilyn ymgysylltu â staff rheng flaen, sefydliadau'r sector gwirfoddol a charcharorion. | Dirprwy Gyfarwyddwr, Lleihau Aildroseddu, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF | |
| 4 | Dylid datblygu rhaglen codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant arbenigol a'i chyflwyno i staff sy'n gweithio mewn gwasanaethau cyfiawnder troseddol. Ar gyfer staff rheng flaen, dylai'r dysgu hwn fod yn eang, yn orfodol, yn codi ymwybyddiaeth o gyflyrau niwrowahanol a sut maent yn effeithio ar gyfathrebu ac yn cael eu cefnogi gan strategaethau ymarferol ar gyfer gweithio gyda phobl niwrowahanol. Dylid darparu hyfforddiant mwy arbenigol ar gyfer staff sydd ei angen ar gyfer eu swydd. Dylid datblygu a chyflwyno'r rhaglen drwy ymgynghori â | Cytunwyd yn Rhannol | Rydym yn cytuno'n llwyr â'r penderfyniad i godi ymwybyddiaeth, gwella hyfforddiant ac annog pob adran ac asiantaeth iechyd, cyfiawnder a phlismona i godi ymwybyddiaeth ymhlith eu staff eu hunain.<br><br>Fodd bynnag, **cytunwyd yn rhannol** â'r argymhelliad hwn, oherwydd er bod holl adrannau'r llywodraeth, asiantaethau a Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i godi ymwybyddiaeth o niwroamrywiaeth yn y System Cyfiawnder Troseddol, mae angen mwy o fapio a bydd yn cael ei wneud drwy'r Gweithgor Trawslywodraethol. Dylai pob adran nodi pa hyfforddiant niwroamrywiaeth, os o gwbl, y maent yn ei hyrwyddo ar hyn o bryd, pa gynlluniau, os o gwbl, sydd ganddynt i ddarparu hyfforddiant, a sefydlu pa gyfleoedd sydd ar gael i gyflwyno pecynnau hyfforddi cyfredol gan ddefnyddio dull rhyngadrannol lle bo hynny'n briodol.<br><br>Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf eisoes wedi dechrau rhaglen codi ymwybyddiaeth. Er enghraifft, drwy'r Gynhadledd 'What Good Looks Like' a gynhaliwyd ar y cyd rhwng Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi a GIG Lloegr ar 1 Hydref 2021. Bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gweithio gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF a GIG Lloegr i barhau i gynnal digwyddiadau dilynol ynghylch y pwnc hwn. Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder eisoes wedi dechrau cynnal cyfres o sesiynau hyfforddi gyda thimau polisi, i sicrhau bod ystyriaeth i gyflyrau niwrowahanol yn cael ei gwreiddio'n llawn yn y gwaith o ddatblygu polisïau. | Dirprwy Gyfarwyddwyr Cyfatebol sy'n gyfrifol am Bolisi Niwroamrywiaeth yn y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf, Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu, Llys Gwarchod, a Llywodraeth Cymru | Tachwedd 2022 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | phobl sydd â phrofiad personol o niwrowahaniaeth. | | Ym mis Ionawr 2022 comisiynwyd Sgiliau ar gyfer Cyfiawnder gan y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf i ddatblygu Fframwaith Cymwyseddau Craidd Iechyd, Gofal a Lles Oedolion ar gyfer Staff Carchardai a Phrawf. Bydd y fframwaith yn cynnwys galluoedd craidd sy'n disgrifio'r wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiad sy'n ofynnol ar gyfer y rheini sy'n gweithio gydag unigolion agored i niwed sydd wedi'u caethiwo. Mae'r fframwaith yn mabwysiadu dull gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, sy'n cydnabod, yn gwerthfawrogi ac yn adeiladu ar yr unigolrwydd hwn, boed hynny'n niwrowahanol neu'n niwronodweddiadol. Mae'r fframwaith wrthi'n cael ei ddatblygu gyda dyddiad gorffen o 31 Mawrth 2022.<br><br>Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder hefyd wedi ymrwymo i gyflwyno 'Pecyn Hyfforddiant Niwroamrywiaeth Cenedlaethol' erbyn diwedd 2022 er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Mae rhywfaint o hyfforddiant niwroamrywiaeth lefel sylfaen eisoes wedi cael ei roi ar waith fel mater o drefn ar gyfer staff yn y carchar a'r gwasanaeth prawf. Bydd y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn annog adrannau eraill y llywodraeth ac asiantaethau statudol i gynyddu hyfforddiant arbenigol ar gyfer unigolion, er enghraifft y rheini sy'n gweithio ym maes iechyd ac addysg. Bydd angen hyfforddiant mwy manwl, adnoddau addas ac asiantaethau unigol i'w rhoi ar waith. | Pennaeth Grŵp Gwasanaethau Adsefydlu, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF<br><br>Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Iechyd a Menywod sy'n Droseddwyr, y Weinyddiaeth Gyfiawnder | Mawrth 2022<br><br>Erbyn diwedd 2022. |
| | | | **Diweddariad Chwe Mis**<br><br>**Yr Heddlu** | | Dechrau 2023 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Mae Gweithgor yr Heddlu, dan gadeiryddiaeth y Prif Swyddog Cynorthwyol Poole, yn cynhyrchu cyfeiriadur arfer gorau i dynnu sylw at enghreifftiau o hyfforddiant, addasiadau rhesymol a datblygiadau arloesol. Bydd y cyfeiriadur hwn yn cael ei ryddhau ddechrau 2023 a bydd yn helpu i godi ymwybyddiaeth o gyflyrau niwrowahanol ac yn cynnwys enghreifftiau ymarferol o'r gwahanol fathau o gymorth y gellid eu darparu i wella canlyniadau i bobl niwrowahanol sy'n dod i gysylltiad â'r System Cyfiawnder Troseddol. Mae'r NPCC hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Coleg Plismona i edrych ar gynnwys canllawiau niwroamrywiaeth ym mhob un o'r dogfennau Ymarfer Proffesiynol Cymeradwy, sef y ffynhonnell swyddogol o ymarfer proffesiynol ar gyfer plismona.<br><br>**Llysoedd a Dedfrydu**<br><br>Mae Barnwriaeth Cymru a Lloegr yn annibynnol ar y llywodraeth. Rydym yn ymwybodol, yn annibynnol ar eu gwaith, bod y Coleg Barnwrol, ar ran yr Arglwydd Brif Ustus, wedi datblygu hyfforddiant ar gyfer ynadon a chynghorwyr cyfreithiol. Mae'r hyfforddiant hwn yn tynnu sylw at drin pobl â chyflyrau niwroamrywiol yn deg pan ddônt gerbron y llys, gan gyfeirio at adrannau perthnasol o Lyfr y Fainc ar Driniaeth Gyfartal, yn ogystal â hyfforddiant ar Ganllawiau'r Cyngor Dedfrydu ac ar Ofynion Triniaeth Gwasanaeth Cymunedol. Mae'r hyfforddiant hwn yn cael ei ystyried yn hyfforddiant hanfodol i'r holl ynadon a chynghorwyr cyfreithiol a bydd yn cael ei ddarparu dros y blynyddoedd hyfforddi 2022-23 a 2023-24.<br><br>**Carchardai a Phrawf**<br><br>Mae'r gwasanaeth prawf wedi comisiynu gwasanaethau niwroamrywiaeth arbenigol newydd mewn pedair rhanbarth prawf: Swydd Efrog a Humber, Gogledd Orllewin Lloegr, Gorllewin Canolbarth Lloegr a De Orllewin Lloegr. Mae'r | Prif Swyddog Cynorthwyol gyda Heddlu Dyfnaint a Chernyw a'r arweinydd niwroamrywiaeth ar gyfer Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu<br><br>Pennaeth Llywodraethu a Pholisi, y Coleg Barnwrol | Mawrth 2024 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | contract wedi cael ei ddyfarnu i’r Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol (NAS)am dwy flynedd, gyda’r opsiwn o estyniad pellach o 12 mis. Yn rhanbarth Swydd Efrog a Humber, rhoddwyd y gwasanaeth niwroamrywiaeth arbenigol ar waith ym mis Tachwedd 2022, a bydd y gweddill yn dilyn cyn bo hir. Bydd NAS yn darparu ymyriadau un-i-un i bobl ar brawf a hyfforddiant, yn uwchsgilio ymarferwyr prawf i ganfod cyflyrau niwrowahanol, ac yn codi ymwybyddiaeth strategol ar gyfer uwch arweinwyr yn y pum rhanbarth prawf. Bydd hyn yn arwain at gynnydd mewn ymgysylltiad a lefel y gefnogaeth i bobl niwrowahanol sydd ar brawf.<br><br>Mae’r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf a Sgiliau er Cyfiawnder yn bwrw ymlaen â’r gwaith o ddatblygu Fframwaith Galluoedd Craidd Iechyd, Gofal a Lles Oedolion, sy’n defnyddio dull gweithredu sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer pobl yn ein gofal, boed hynny’n niwrowahanol neu’n niwronodweddiadol. Ar ôl ymgynghori, mae fersiwn derfynol y Fframwaith yn cael ei pharatoi i’w chymeradwyo gan Bwyllgorau Rheoli Gweithredol y Gwasanaeth Carchardai a’r Gwasanaeth Prawf ym mis Tachwedd, gyda dyddiad rhyddhau dros dro yn gynnar yn 2023.<br><br>Er mwyn gwella galluogrwydd, un o gyfrifoldebau canolog y Rheolwyr Cymorth Niwroamrywiaeth fydd darparu hyfforddiant a chefnogaeth i staff carchardai i’w harfogi i ddeall a chefnogi’n well y rheini sydd ag anghenion niwrowahanol yn y carchar. Fel rhan o’r gwaith o ddatblygu’r rolau hyn, mae ‘Fframwaith Rheolwr Cymorth Niwroamrywiaeth’ wedi cael ei ddatblygu sy’n tynnu sylw at hyn fel maes blaenoriaeth allweddol ac mae’n cynnig awgrymiadau ynghylch sut gellir darparu’r hyfforddiant a’r gefnogaeth hon. | Pennaeth Integreiddio Cymunedol, Gwasanaeth Prawf Swydd Efrog a Humber<br><br>Dirprwy Gyfarwyddwr, Lleihau Aildroseddu, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF<br><br>Dirprwy Gyfarwyddwr, Lleihau Aildroseddu, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Mae'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf hefyd wedi datblygu 'Pecyn Cymorth Hyfforddiant Niwroamrywiaeth Cenedlaethol' sydd ar gael i'r holl staff rheng flaen yn y gwasanaethau carchardai a phrawf. Cafodd y pecyn cymorth ei ddatblygu gan a gyda staff niwrowahanol, mewn cydweithrediad â rhwydweithiau staff y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. | Dirprwy Gyfarwyddwr, Grŵp Datblygu Strategol y Gyfarwyddiaeth Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad | Cwblhawyd yn 2022 |
| 5 | Dylid gwneud addasiadau i ddiwallu anghenion y rhai sydd â chyflyrau niwrowahanol drwy'r system cyfiawnder troseddol. Dylai adrannau a chyrff perthnasol weithio gyda'i gilydd i ragweld anghenion a gwneud addasiadau. Mae newidiadau syml a chost isel i raddau helaeth i greu amgylcheddau, cyfathrebu a diwylliant staff sy'n gyfeillgar i niwroamrywiaeth yn debygol o fod o fudd i'r rhai sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol, waeth beth fo'u cyflyrau niwrowahanol, a dylid gwneud hynny cyn gynted â phosibl | Cytunwyd yn Rhannol | Rydym wedi ymrwymo'n llwyr i ddiwallu anghenion pobl niwrowahanol ac rydym yn ceisio sicrhau bod addasiadau rhesymol ac ymddygiadol yn cael eu mabwysiadu drwy hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth. Fodd bynnag, mae'r argymhelliad hwn yn cael ei **gytuno'n rhannol** oherwydd bod amgylcheddau ffisegol mewn lleoliadau cyfiawnder troseddol yn cyfyngu arnom mewn rhai achosion.<br><br>Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'i hasiantaethau wedi datblygu cefnogaeth i bobl niwrowahanol, a byddant yn parhau i wneud hynny yn y dyfodol. O ran carchardai, mae'r holl garcharorion yn cael sgriniad iechyd cynhwysfawr yn ystod eu hwythnos gyntaf i ganfod anghenion iechyd (gan gynnwys dull wedi'i deilwra ar gyfer trin cyffuriau). Mae gennym eisoes sawl adain arbenigol, gan gynnwys y rhai yng Ngharchar EF y Parc a Wakefield, sydd wedi'u cynllunio i ddarparu ar gyfer anghenion unigolion niwrowahanol. Bydd y rhaglen adeiladu carchardai yn y dyfodol yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael ar egwyddorion dylunio. Gall carchardai hefyd weithio gyda'r Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol i ennill Achrediad Awtistiaeth, lle dylai carchardai ystyried y gallai carcharorion fod angen addasiadau i'w hamgylcheddau er mwyn diwallu eu hanghenion, gall hyn fod o fewn eu llety presennol neu mewn meysydd arbenigol lle bo hynny'n ymarferol. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi ymrwymo i hyrwyddo | Dirprwy Gyfarwyddwyr Cyfatebol sy'n gyfrifol am Bolisi Niwroamrywiaeth yn y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf, Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu, a Llywodraeth Cymru | Tachwedd 2022 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | achrediad awtistiaeth ar draws yr ystâd. Gall carchardai yng Nghymru geisio achrediad drwy'r cynllun ASD Aware (Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistiaeth), sy'n cael ei hyrwyddo drwy'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol.<br><br>Fel y nodwyd ym Mhapur Gwyn y Strategaeth Carchardai, roeddem wedi ymrwymo i gyflwyno Rheolwyr Cefnogi Niwroamrywiaeth i garchardai; hyd yma rydym wedi gwneud hyn mewn pedwar carchar. Maent wedi rhoi prosesau gwell ar waith i ganfod a chefnogi carcharorion sydd ag anghenion niwrowahanol ac maent wedi dangos bod modd gwneud llawer mwy yn y maes hwn. Er enghraifft, mae darpariaeth wedi'i theilwra mewn derbynfeydd carchardai i helpu'r rheini sy'n niwrowahanol i gymryd rhan mewn gwasanaethau ar ddechrau eu dedfryd; wedi cyflwyno sesiynau codi ymwybyddiaeth niwroamrywiaeth er mwyn gwella sgiliau staff; ac mae hyrwyddwyr adain wedi cael eu cyflwyno i wella mynediad at addysg, sgiliau a gwaith a gwasanaethau eraill. Rydym yn bwriadu ehangu'r rôl hon ymhellach ar draws y ystâd y carchardai a byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd yn y cam adolygu chwe mis. | Dirprwy Gyfarwyddwr, Lleihau Aildroseddu, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF | Tachwedd 2022 |
| | | | Ym mis Hydref 2021, cyflwynodd y Rhaglen Gofynion Triniaeth Dedfryd Gymunedol (CSTR) Arbenigwr Niwroamrywiaeth sy'n gallu cynnig arbenigedd clinigol mewn poblogaethau niwrowahanol am flwyddyn wedi'i ariannu gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae cynllun cyflawni yn arwain y gwaith hwn a fydd yn arwain at fframwaith o argymhellion, a fydd yn cael ei roi ar waith yn ystod 2022/23, gan ddarparu dull gweithredu cyson ledled Cymru a Lloegr. Bydd diweddariad o'r cynllun cyflawni yn cael ei ddarparu wedi chwe mis o'r cynllun gweithredu hwn.<br><br>Er ei fod yn annibynnol ar y Llywodraeth, dylid nodi bod y Cyngor Dedfrydu wedi cyhoeddi canllaw diffiniol | Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Iechyd a Menywod sy'n Droseddwyr, y Weinyddiaeth Gyfiawnder | Tachwedd 2022 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | newydd yn 2020 ar gyfer dedfrydu troseddwyr ag anhwylderau meddwl, anhwylderau datblygiadol a namau niwrolegol. Am y tro cyntaf, mae hyn wedi rhoi canllawiau i farnwyr ac ynadon i'w cynorthwyo i ddedfrydu yn y maes cymhleth hwn, gan ddarparu eglurder a thryloywder ynghylch y broses ddedfrydu ar gyfer y grŵp hwn o droseddwyr. | | |
| | | | **Diweddariad Chwe Mis**<br>**Yr Heddlu**<br><br>Mae Gweithgor yr Heddlu, dan gadeiryddiaeth y Prif Swyddog Cynorthwyol Poole, yn cynhyrchu cyfeiriadur arfer gorau i dynnu sylw at enghreifftiau o hyfforddiant, addasiadau rhesymol a datblygiadau arloesol.<br><br>**Carchardai a Phrawf**<br><br>Mae'r Arbenigwr Triniaeth Dedfryd Gymunedol (CSTR) wedi bod yn ei swydd ers mis Hydref 2021 ac mae deiliad y swydd wedi sefydlu argymhellion allweddol ar gyfer cefnogi pobl niwrowahanol sydd â CSTR, megis triniaeth camddefnyddio sylweddau neu driniaeth a chymorth iechyd meddwl. Ar ôl cael ei ymestyn am bum mis, bydd y rôl hon nawr yn sicrhau bod argymhellion allweddol i'r CSTR yn cael eu rhoi ar waith ac yn edrych ar ffyrdd o ddefnyddio'r argymhellion hyn ar draws y gwasanaeth prawf ehangach.<br><br>Rydym yn hyrwyddo achrediad awtistiaeth ar draws yr ystâd carchardai i wneud amgylchedd y carchar yn fwy cefnogol i bobl niwrowahanol. Ers mis Hydref 2022, mae pedwar carchar wedi cael statws achrededig ac mae 14 carchar yn gweithio tuag ato. Yn ehangach, bydd rhan o rôl y Rheolwyr Cymorth Niwroamrywiaeth newydd mewn carchardai yn | Prif Swyddog Cynorthwyol gyda Heddlu Dyfnaint a Chernyw a'r arweinydd niwroamrywiaeth ar gyfer Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu<br><br>Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Iechyd a Menywod sy'n Droseddwyr, y Weinyddiaeth Gyfiawnder<br><br>Dirprwy Gyfarwyddwr, Grŵp Datblygu Strategol y Gyfarwyddiaeth Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad a Dirprwy Gyfarwyddwr Lleihau Aildroseddu, Gwasanaeth | Dechrau 2023<br><br>Cwblhawyd |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | cynnwys sicrhau bod addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud i amgylcheddau'r carchar i'w gwneud yn fwy cefnogol i anghenion niwrowahanol.<br><br>**Adsefydlu**<br><br>Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn treialu adnoddau digidol i wella'r cymorth i bobl niwrowahanol a gwerthuso beth sy'n gweithio'n dda i lywio ymyriadau yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys treialu adnodd llythrennedd digidol newydd gyda'r nod o wella canlyniadau ar gyfer y rheini sy'n gadael y carchar sydd ag anabledd dysgu a llythrennedd isel. Bydd y cynllun peilot hwn yn para am 12 mis tan fis Hydref 2023, gyda phwyslais ar werthuso'r gyfradd aildroseddu dros amser. | Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi<br><br>Dirprwy Gyfarwyddwr, Canlyniadau Carcharorion, Adsefydlu, Polisi Aildroseddu, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder | Hydref 2023 |
| 6 | Dylai asiantaethau'r System Cyfiawnder Troseddol weithio gyda'i gilydd, a chyda sefydliadau eraill yn y sector statudol a'r trydydd sector mewn modd cydlynol, i ddeall a diwallu anghenion unigolion niwrowahanol yn y gymuned, atal troseddu a chefnogi adsefydlu. | Cytunwyd | Rydym yn cytuno'n llwyr â'r argymhelliad hwn. Mae Gweithgor trawslywodraethol o uwch swyddogion wedi cael ei sefydlu, a fydd yn cwrdd bob chwarter ac mae Grŵp Gweithredol wedi cael ei sefydlu, a fydd yn cwrdd bob mis i ddechrau yn ystod y cam cwmpasu chwe mis.<br><br>Fel y nodwyd yng ngham pedwar, cynhaliodd y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf a GIG Lloegr gynhadledd ar y cyd o'r enw 'What Good Looks Like, Supporting Neurodiversity in Prisons' ar 1 Hydref 2021.<br><br>Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi gweithio gydag asiantaethau'r trydydd sector, fel CLINKS a Revolving Doors Agency, a bydd yn parhau i wneud hynny, er mwyn ymgysylltu ag ymarferwyr a phobl sydd â phrofiad uniongyrchol yn y broses o ddatblygu'r cynllun gweithredu hwn a'r ffrydiau gwaith cysylltiedig. | Dirprwy Gyfarwyddwyr Cyfatebol sy'n gyfrifol am Bolisi Niwroamrywiaeth yn y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf, Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu, a Llywodraeth Cymru<br><br>Dirprwy Gyfarwyddwr, Tîm Amrywiaeth a Chynhwysiant, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi<br><br>Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Iechyd a Menywod sy'n Droseddwyr, y Weinyddiaeth Gyfiawnder | Tachwedd 2022<br><br>Cwblhawyd ym mis Hydref 2021<br><br>Cwblhawyd ym mis Tachwedd 2021 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| | | | **Diweddariad Chwe Mis**<br><br>Fel y soniwyd uchod, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi cynnal Gweithgor Gweithredol a Gweithgor Trawslywodraethol sydd wedi mynd ati mewn ffordd bragmataidd i archwilio pob un o gamau allweddol y System Cyfiawnder Troseddol. Ers hynny, rydym wedi sefydlu cysylltiadau cryfach, wedi cynyddu'r nifer sy'n ymuno ac wedi cryfhau ein gallu i fabwysiadu dull cyson o gefnogi pobl niwrowahanol ar bob cam yn y System Cyfiawnder Troseddol.<br><br>Rydym wedi cwblhau cyfres o gyfarfodydd bwrdd crwn y trydydd sector a fforymau profiad bywyd i lywio ein dull gweithredu sydd wedi cyfrannu'n uniongyrchol at lywio arferion gorau, elfennau i'w cyflawni a mentrau allweddol y manylir arnynt yn y diweddariad hwn. | Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Iechyd a Menywod sy'n Droseddwyr, y Weinyddiaeth Gyfiawnder<br><br>Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Iechyd a Menywod sy'n Droseddwyr, y Weinyddiaeth Gyfiawnder | Cwblhawyd ym mis Tachwedd 2022<br><br>Cwblhawyd ym mis Tachwedd 2022 |

**Cyfrif Argymhellion**

| Argymhellion | Cyfrif |
|---|---|
| Cytunwyd | 1 |
| Cytunwyd yn Rhannol | 5 |
| Heb Gytuno | 0 |

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm** | **6** |